

**CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL
COFNODION 06/11/2017**

PRESENNOL: Cadeirydd Mr R G Parry, Mrs E Jones, Mrs C Lloyd, Mrs S Jones, Ms M E Evans, Mrs S Roberts, Mrs A Williams, Mrs S Dooley a Mr G Williams.	PRESENT: Chairman Mr R G Parry, Mrs E Jones, Mrs C Lloyd, Mrs S Jones, Ms M E Evans, Mrs S Roberts, Mrs A Williams, Mrs S Dooley and Mr G Williams.
1. Croeso ac ymddiheuriadau. Dim ymddiheuriadau.	1. Welcome and apologies. No apologies were received.
2. Datganiadau Diddordeb. Dim	2. Declarations of Interest. Dim
3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 03/10/2017. Derbyniwyd y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod	3. Ratify minutes of meeting held on 03/10/2017. The minutes were accepted as a true record of the meeting.
4. Materion yn codi:	4. Matters arising:
(a) Ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dim ymateb i lythyr y Clerc yn gofyn am bresenoldeb yr heddlu yn y cyfarfod hwn. Penderfynu trafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.	(a) Anti-social behaviour. No response to the Clerk's letter requesting police attendance at tonight's meeting. It was decided to discuss further at the next meeting.
(b) Llwybr cyhoeddus Pendref i Carreg y Fran. Llythyr o'r Cyngor Sir yn cadarnhau eu bod am gysylltu â'r tîrfeddianwyr eraill i weld os ydynt yn hapus i'r Cyngor Sir osod giatiâu/camfeydd ar ffiniau'r caeau, ac os nad ydynt yn fodlon bod pŵer gan y Cyngor i roi rhybudd iddynt wneud y gwaith eu hunain. Angen pont eithaf sylweddol dros ddau draen cyfochrog rhwng Carreg y Fran a'r gwaith carthffosiaeth - ni fydd yn bosib gwneud y gwaith hwn tan o leiaf y Gwanwyn.	(b) Public footpath Pendref to Carreg y Fran. Letter from the County Council confirming that they will contact the other landowners to see whether they would be happy for the County Council to fix gates/styles on the field's boundaries, and if they are not willing, the Council have powers to enforce them to do the work themselves. A fairly substantial bridge across two parallel drains between Carreg y Fran and the sewage works – it will not be possible to commence this work until at least the Spring.
(c) Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad. Dyddiadau i law. 6 aelod o'r Cyngor a'r Clerc i fynychu ar y 15.11.2017, a 2 aelod i fynychu ar yr 22.11.17. Y Clerc i gadarnhau'r dyddiadau hyn gyda'r Cyngor Sir.	(c) Code of Conduct training. Dates to hand. 6 members of the Council and Clerk to attend on the 15.11.2017 and 2 members to attend on the 22.11.17. The Clerk to confirm the dates with the County Council
(d) Gwasanaeth Sul y Coffa. Cadarnhad oddi wrth Awyrlu Fali y bydd Flt Lt Robinson yn bresennol yn y gwasanaeth. Y trefniadau eraill ar gyfer y gwasanaeth wedi eu cwblhau. Gofynnwyd i'r Cadeirydd gael gair â gofalwr y cloc ynglŷn â glanhau o gwmpas y cloc cyn	(d) Remembrance Sunday Service. Confirmation from RAF Valley that Flt Lt Robinson will be in attendance at the service. All other arrangements for the service had been completed. The Chairman was requested to have a word with the caretaker re ensuring that the

Sul y Coffa.	area surrounding the clock would be cleaned prior to Remembrance Sunday.
(e) Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru 5/10/17. Cafwyd adroddiad gan Mrs C Lloyd a'r Clerc ar gynnwys y cyfarfod.	(e) One Voice Wales Area Committee 5/10/17. Report on the content of the meeting was given by Mrs C Lloyd and the Clerk.
5. Gohebiaeth:	5. Correspondence:
(i) Un Llais Cymru:	(i) One Voice Wales:
(a) Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Linc at y wefan. Er gwybodaeth.	(a) Independent Remuneration Panel draft Annual Report. Link to the website. For information.
(b) Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr. Adroddiad Mike Harriman o gyfarfod 25/9/17. Er gwybodaeth.	(b) Betsi Cadwaladr Stakeholder Reference Group meeting 25/9/17. Mike Harriman's report. For information.
(c) Ymgynghoriad ar ddiwygiadau arfaethedig i'r system apelio ar gyfer Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu)(Cymru) 2003. Linc i'r wefan. Er gwybodaeth.	(c) Consultation on proposed amendments to Local Authorities (Capital Finance and Accounting)(Wales) Regulations 2003. Link to the website. For information.
(d) Newyddion Llywodraeth Cymru: Cynllun i annog cydweithio agosach a llywodraeth leol. Er gwybodaeth.	(d) Welsh Government News: Scheme to promote closer working with local government. For information.
(e) Dulliau gweithredu lleol ar gyfer lleihau tlodi: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a byrddau gwasanaethau cyhoeddus. Linc i'r wefan. Er gwybodaeth.	(e) Local Approaches to poverty reduction: The Well Being of Future Generations Act and public service boards. Link to the website. For information.
(f) Comisiwn Ffiniau i Gymru: Adroddiad Cynigion Diwygiedig Arolwg 2018. Linc i'r wefan. Er gwybodaeth.	(f) Boundary Commission for Wales: Revised Proposals Report 2018. Link to the website. For information.
(g) Adolygiad o'r Cynghorau Cymuned a Thref - digwyddiadau ymgynghori yng Nghyngor Tref Caernarfon ar 28.11.2017. Neb yn rhydd i fynd i'r digwyddiad.	(g) Review of Community and Town Council Sector – consultation event at Caernarfon Town Council on 28.11.2017. No one able to attend the event.
(ii) Cyngor Sir Ynys Môn:	(ii) Isle of Anglesey County Council:
Rhybudd derbyn cais cynllunio fel a ganlyn:	Notice of receipt of application as follows:
(a) Cais Rhif 48C91F. Cais llawn ar gyfer codi 2 annedd un talcen ar dir tu cefn The Old Police Station. Dim sylwadau.	(a) App. No. 48C91F. Full application for the erection of semi-detached dwelling on land to the rear of The Old Police Station. No observations.
(b) Cais Rhif 48C205. Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Bryn Goleu. Dim sylwadau.	(b) App. No. 48C205. Full application for alterations and extensions at Bryn Goleu. No observations.
(c) Cais Rhif 48C203A. Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn 31 Maes Meurig. Dim sylwadau.	(c) App. No. 48C203A. Full application for alterations and extensions at 31 Maes Meurig. No observations.

(d) Cais Rhif 48C89E. Cais llawn ar gyfer ehangu mynedfa bresennol yn Fron Cottage. Dim sylwadau.	(d) App.No 48C89E. Full application for the enlargement of the existing access at Fron Cottage. No observations.
(iii) Llywodraeth Cymru	(iii) Welsh Government.
(a) Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref. Neges ar ran yr Adolygiad Annibynnol. Er gwybodaeth.	(a) Review of the Community and Town Council sector. Message sent on behalf of the Independent Review Panel. For information.
(iv) Comisiwn Ffiniau i Gymru. Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru – Cynigion Diwygiedig. Linc i'r wefan. Er gwybodaeth.	(iv) Boundary Commission for Wales. The 208 Review of Parliamentary Constituencies in Wales – Revised Proposals. Link to website. For information.
(v) Grŵp Cynefin. (a) Adroddiad Anghenion Tai. Diwrnod Agored i'w gynnal yng Nghanolfan yr Henoed 23/11/2017 3pm i 6.30pm. Er gwybodaeth.	(v) Grŵp Cynefin. (a) Report on Housing Needs. Open day to be held at Pensioners' Hall 23/11/2017 3pm to 6.30pm. For information.
(vi) Mrs Helen Williams, Cynefin. Ymddiswyddiad i'w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.	(vi) Mrs Helen Williams, Cynefin. Resignation to be discussed further at the next meeting.
6. Materion ariannol	6. Financial matters
(a) Anfonebau: Dewi Parry £730.00 tâl am dorri'r llwybrau cyhoeddus 2017; Parch E Rowlands £25.00 tâl am wasanaethu yn Sul y Coffa; Mrs M Price £500.00 Cyflog y Clerc am 3ydd chwarter y flwyddyn ariannol; HMRC £125.00 PAYE ar gyflog y Clerc. Caniatâd i'r Clerc dalu'r anfonebau.	(a) Invoices: Dewi Parry £730.00 for cutting public footpaths 2017; Rev. E Rowlands £25.00 fee for conducting the Remembrance Sunday service; Mrs M Price £500.00 Clerk's salary for the 3 rd quarter of this financial year; HMRC £125.00 PAYE on Clerk's salary. Permission given to the Clerk to pay the invoices.
(b) Archwilydd Mewnol. Y Clerc wedi siarad â Mr J D Roberts ynglŷn ag archwilio mewnol ar gyfer y flwyddyn 2017/18 ac yntau wedi dweud na fyddai yn ymgymryd â'r gwaith ond y byddai'n ysgrifennu'n ffurfiol at y Cyngor Cymuned I gadarnhau hyn. Gofynnodd y Clerc am ganiatâd i wneud ymholiadau am archwilydd mewnol arall a phenderfynwyd yn unfrydol iddi wneud hynny. Y mater i'w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.	(b) Internal Auditor. The Clerk had spoken to Mr J D Roberts re the 2017/18 internal audit when he informed her that he would no longer be taking on the work, but that he would be writing to the Community Council to formally confirm this. The Clerk asked for permission to make enquiries re a new internal auditor and it was unanimously decided that she proceed. The matter to be discussed further at the next meeting.
7. Unrhyw fater arall.	7. Unrhyw fater arall.
(a) Hen Gae Chwarae Dafarn Groes.	(a) Old playing field at Dafarn Groes.

<p>Y brydles yn dod i ben a'r deilydd presennol yn rhoi'r gorau i'r les. 2 gais i law ar gyfer rhentu'r tir: Mr M D Jones a Ms A Parry. Cynhaliwyd pleidlais ac yn unol â'r bleidlais o 5 pleidlais i 4 penderfynwyd cynnig y les i Mr M D Jones am rent o £200 y flwyddyn. Y les i ddechrau ar 1.12.2017 ac yn dod i ben ar 1.11.2018.</p>	<p>Lease coming to an end and the present leaseholder terminating his holding. 2 applications received to take up the leasehold; Mr M D Jones a Ms A Parry. A vote was taken, and as per the vote of 5 to 4 it was decided to offer the lease to Mr M D Jones, at a rent of £200 per annum. The lease to start on the 1.12.2017 and ending on 1.11. 2018.</p>
<p>(b) Mrs Sharon Jones. Llwybr cyhoeddus Afon Felin. Cyflwr y bont wedi dirywio. Dywedodd Mrs N Dooley fod y mater wedi'i drafod rhyngddi hi fel perchennog y tir, a'r Cyngor Sir, gyda'r ddealltwriaeth bod y Cyngor Sir i gyflenwi'r hyn oedd ei angen i wella cyflwr y bont a'r perchennog i drefnu gwneud y gwaith.</p>	<p>(b) Mrs Sharon Jones. Afon Felin public footpath. Bridge in poor state of repair. Mrs N Dooley stated that the matter that she as the owner of the land, and the County Council had discussed this matter and that there was an understanding that the County Council would supply the necessary materials to improve the state of the bridge and that the owner would be responsible for carrying out the work.</p>
<p>(c) Mr D E Parry. Yn y cynnig am y gwaith o dorri'r llwybrau cyhoeddus y flwyddyn ariannol nesaf ond y pris i godi i £750.00 y flwyddyn. Penderfynwyd derbyn y pris newydd. Y Clerc i roi gwybod i Mr Parry.</p>	<p>(c) Mr D E Parry. Offering to carry out the work of maintaining the public footpaths for the next financial years, but the price would increase to £750.00 per annum. It was decided to accept the new price. The Clerk to inform Mr Parry.</p>
<p>CYFARFOD NESAF: Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 8 Ionawr 2018 am 7pm yng Nghanolfan yr Henoed.</p>	<p>NEXT MEETING: The next meeting will be held at 7pm on Monday 8 January 2018 at the Pensioners' Hall.</p>